

**Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanelltyd, Taicynhaeaf a Bontddu a gynhaliwyd yn
Neuadd Bentref, Llanelltyd
Nos Fawrth, Gorffennaf 12, 2016 am 7.30 o'r gloch.**

Preseanol: Cyngorwyr: Geraint Rowlands (Cadeirydd), John Hughes, Janet Edwards, Eirlys Roberts, Llinos Williams, Elfed ap Gomer, a Carwyn Evans. Hefyd Peredur Jenkins a Henry M. Edwards.

1. Ymddiheuriadau: Gethin Williams (Is-gadeirydd) a Gareth Ellis.

2. Datgan diddordeb:

Nid oedd neb yn datgan diddordeb.

3. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Mehefin 14, 2016

Cynigwyd ac eiliwyd fod y cofnodion yn gywir.

4. Materion yn codi o'r cofnodion Mehefin 14, 2016

Eitem 4. Eitem 5, Eitem 10.c. Mae Peredur Jenkins ac Elfed ap Gomer wedi bod yn gohebu â Phrif Beiriannydd Meirionnydd ac mae ynta wedi bod yn gohebu â swyddog yn Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru, Llywodraeth Cynulliad Cymru ynglŷn â'r mater.

Eitem 8.ch. Llythyr ateb (21/6/2016) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod bydd Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod bydd Cyngor Gwynedd yn cysylltu â Chynghorau Cymuned a Thref am gost y biniau halen.

Llythyr (27/6/2016) oddi wrth Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd. Maent yn rhoi gwybod maent yn caniatáu Cynghorau Cymuned a Thref i lenwi biniau cyn belled bod y contractwr yn cydymffurfio gyda Deddf Gwaith Ffyrdd a Strydoedd Newydd 1991. Bydd y gost i lenwi bin rhwng £45 a £57 ac mae angen ystyried costau llafur, thrafnidiaeth ayyb; mae'r costau wedi eu selio ar brisiau gwmniau adeiladol lleol. Ni fydd Cyngor Gwynedd yn cymryd unrhyw gyfrifoldeb am bin halen bydd yn cael ei lenwi gan eraill.

Cost Cyngor Gwynedd i barhau rhoi y gwasanaeth yn £80 (clwstwr o finiau, isafswm o 3). (Mae 8 bin halen yn y gymuned).

Penderfynwyd rhoi gwybod i'r aelodau lleoliad y biniau gyda'r bwriad i'r Cyngor Cymuned fod yn gyfrifol amdanynt.

CYNGOR CYMUNED LLANELLYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU
COFNODION GORFFENNAF 12, 2016

Eitem 10.b. Llythyr (7/7/2016) ateb oddi wrth Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd: Maent yn rhoi gwybod:

i. mai'r ffordd ddi-ddosbarth yw'r statws ffordd sydd o'r gyffordd ger Minffordd, Llanelltyd i'r Hen Bont Llanelltyd. Bydd gwaith torri gordyfiant ar ochr y ffordd am gael ei wneud.

ii. bydd gwaith ysgubo dail yn Bontddu yn cael ei wneud.

iii. mae gwaith torri gwair ar ochr y ffyrdd yn cael ei wneud ar hyn o bryd.

iiii. polisi Cyngor Gwynedd i dorri gwair ar ochr ffyrdd gwledig yw byddent yn cael toriad unwaith y flwyddyn. Bydd asesu cyffyrdd a gwelededd yn cael ei wneud yn yr Hydref.

Penderfynwyd rhoi gwybod i Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol i ystyried y syniad iddynt roi arwyddion / conau yn Bontddu i rybuddio perchnogion ceir ddim i barcio eu ceir ar ochr y ffordd pryd bydd gwaith o ysgubo dail yn cael ei wneud. Bydd hyn yn gwneud y gwaith ysgubo yn effeithiol.

Penderfynwyd sefydlu criw o wirfoddolwyr i gario allan gwaith i gadw'r gymuned yn daclus. I ddechrau'r fenter, penderynwyd rhoi gwybod i'r cyhoedd am gwirfoddolwyr trwy Facebook a phosteri.

Eitem 10.b. Mae Elfed ap Gomer wedi darparu'r Polisi Iaith yn y Gymraeg a'r Saesneg.

5. Materion Ariannol

a. Llythyr (23/5/2016) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod am newidiadau i gyflog Clercod Cyngor Lleol ar gyfer 2016/18. Mae'r cyflog yn unol â Chanllawiau Cenedlaethol ar Raddfeydd i Glercod.

Cyflog presennol y Clerc yw £9.029 yr awr ar bwynt SCP17, h.y. £9.029 x 12 (oriau) x 12 (misoedd) = £1,300.18.

Cyflog newydd am 2016/17 fydd £9.120 yr awr ar bwynt SCP 17, h.y. £9.120x 12 x 12 = £1,313.28.

Penderfynwyd derbyn y newid.

b. Bil (27/06/2016) am £350 oddi wrth John A. Owen, Caegoronwy i ail agor bedd.

Penderfynwyd talu'r bil.

c. Derbyniwyd (1/7/2016) siec am £550.00 (claddedigaeth bellach) oddi wrth D.H. Gabriel. Taliad at Paul Leslie Smalley.

ch. Balans yn y banc ar 29 Mehefin, 2016: £7,753.12.

6. Mynwent Llanelltyd

7. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

a. Deddf Cynllunio Gwlad a Thref, 1990. Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref, (Gweithdrefn Rheoli Datblygiad) (Cymru) 2012.

i. Cais cynllunio NP5/65/336A. Mae'r Awdurdod yn caniatáu Cynllun trydan dwr 8kw arfaethedig yn cynnwys adeiladu argae ac adeilad tyrbin, gosod pibell o dan y ddaear, a chyswllt wedi ei gladdu i'r grid trydan. Afon Wnin, Cwm yr Wnin, Llanelltyd.

ii. Cais cynllunio NP5/65/124D/PE/RLR. Cais amlinellol gyda rhai materion wedi eu cadw'n ôl i godi tŷ menter gwledig ac adeilad fferm. Tir ger Tŷ Pwmp, Lanelltyd. Mae'r cais wedi ei dynnu yn ol gan yr ymgeisydd.

b. Deddf Cynllunio Gwlad a Thref, 1990. Cydymffurfio a'r Rheolau Cynllunio Gwlad a Thref (Rheoli Hysbysebion), 1992.

Cais cynllunio NP5/65/AD340. Mae'r Awdurdod yn caniatáu Cais am ganiatâd ar gyfer hysbysfwrdd. Maes Parcio 'Fiddler's Elbow', Bontddu.

8. Gohebiaeth

a. Llythyr oddi wrth Shelter Cymru. Maent angen cymorth ariannol.

Penderfynwyd trafod y mater mis Chwefror 'Cais am Nawdd'.

b. Llythyr (22/06/2016) oddi wrth Ombwdsmon gyda chopi o Adroddiad Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru am y flwyddyn 2015/16.

9. Adroddiad Cyng. Peredur Jenkins

a. Bydd cyfarfod yn y dyfodol agos yn Ysgol Llanelltyd i drafod y gegin.

b. Mae'n debygol bydd ffordd A496 yn brysur gyda thrafnidiaeth oherwydd bydd Bont Rheilffordd Bermo ar gau.

c. Mi fydd yn trefnu i swyddogion Cyngor Gwynedd cyfarfod y Cyngor yn cyfarfod mis Medi i drafod diogelwch ffordd A496 gyda thrafeilwyr yn goryrru.

10. Materion Brys

- a. Penderfynwyd rhoi gwybod i Cyngor Gwynedd i gasglu carpet sydd wrth Toiledau Bontddu.
- b. Oherwydd bod cyflwr y fainc wrth y bont yn Llanelltyd yn ansicr am ei fod yn wlyb, mae'n debygol bydd rhaid cael mainc newydd. Os bydd rhaid cael mainc newydd penderfynwyd cael pris.
- c. Bydd cynrychiolwyr o'r Cyngor yng ngwasanaeth coffa hanner canmlwyddiant trychineb Llynpenmaen ddydd Gwener 22ain Gorffennaf yn Llynpenmaen
